

# Gwers 9 – Caethwas yn yr Aifft

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Genesis 37: 12–36, 45:1–7

Cyflwynir Joseff fel cymeriad di-fai – mae'n siŵr fod ganddo feiau, ond nid ydynt yn cael eu nodi. Nid oedd y berthynas rhwng y brodyr eraill a Joseff yn dda o gwbl, hynny'n bennaf oherwydd ei fod yn ffefryn ei dad a'i fod yn breuddwydio breuddwydion (Genesis 37:1–11). Oherwydd y breuddwydion, tyfodd cenfigen y brodyr tuag ato. Cawsant gyfle i ddial arno pan anfonwyd ef gan ei dad i Sichem i ofyn am gyflwr ei frodyr a'r praidd o dan eu gofal. Roedd y brodyr wedi symud ymlaen a chafodd hyd iddynt yn Dothan a phan welsant Joseff yn agosáu gwnaethant gynllwyn i'w ladd. Perswadiwyd hwy gan Reuben i'w daflu i bydew; bwriad Reuben oedd '...ei achub o'u gafael a'i ddwyn yn ôl at ei dad' (Genesis 37:22). Daeth carafán o farchnatwyr heibio, ar eu ffordd i'r Aifft, a gwerthwyd Joseff iddynt am ugain sicil o arian (Genesis 37:28). Mae'n debyg mai dau enw am yr un bobl yw 'Ismaeliaid' a 'Midaniaid' (adn. 27 a 28).

Yn yr Aifft, gwerthwyd Joseff i Potiffar, un o swyddogion Pharo, ac oherwydd bod yr Arglwydd gydag ef daeth yn ŵr llwyddiannus ac yn arolygydd ar dŷ'r swyddog, gyda holl eiddo'r tŷ dan ei ofal. Rhoddwyd prawf ar egwyddorion a safonau moesol Joseff pan geisiodd gwraig ei feistr ei ddenu ond gwrthododd pob ymgais o'i heiddo ac meddai wrthi, 'Sut felly y gwnawn y drwg mawr hwn, a phechu yn erbyn Duw?' (Genesis 39:9).


Cymryd gair ei wraig a wnaeth Potiffar a charcharwyd Joseff. Yn yr un carchar yr oedd pentrulliad a phrif bobydd Pharo, y ddau wedi troseddu yn erbyn eu meistr; gosodwyd Joseff i weini arnynt. Dehonglodd Joseff freuddwydion y ddau ohonynt (Genesis 40) ac er i'r pentrulliad addo sôn amdano wrth Pharo, anghofiodd yn llwyr (Genesis 40:23). Ddwy flynedd yn ddiweddarach cafodd Pharo ddwy freuddwyd na allai holl ddewiniaid a doethion yr Aifft eu dehongli. Cofiodd y pen-trulliad am Joseff ac anfonwyd amdano ac adroddodd Pharo ei freuddwydion iddo. Un ystyr oedd i'r ddwy freuddwyd, sef y byddai'r wlad yn mwynhau saith mlynedd o lawnder ac ar eu holau, deuai saith mlynedd o newyn. Cyngor Joseff i Pharo oedd cadw pumed ran o gnydau'r blynyddoedd da, 'fel y bydd y bwyd ynghadw i'r wlad dros y saith mlynedd o newyn sydd i fod yng ngwlad yr Aifft' (Genesis 41:36). Mae'n eironig fod y ddawn a fu'n gyfrwng iddo gael ei gaethiwo, y ddawn i ddehongli breuddwydion, wedi arwain iddo gael ei achub; yn y man byddai'n arwain achubiaeth ei deulu.

Daeth y newyn i'r Aifft a'r gwledydd cyfagos, a phan ddeallodd Jacob fod ŷd yn yr Aifft, anfonodd ei feibion i brynu ychydig fwyd (Genesis 42 – 44). Erbyn hyn roedd Joseff yn arolygwr dros y wlad. Pan ddaeth y brodyr at Joseff nid oeddent yn ei adnabod ef ac ni chymerodd yntau arno ei fod ef yn eu hadnabod hwy. Cyhuddodd

Joseff ei frodyr o fod yn ysbïwyr, carcharodd hwy am dridiau; ar ôl carcharu Simeon, llanwyd eu sachau ag ŷd a rhoddwyd eu harian yn ôl yn eu sachau. Caniatawyd iddynt fynd adref a gofynnwyd iddynt dychwelyd i'r Aifft a'u brawd ieuengaf, Benjamin, gyda hwy. Ar eu dychweliad i'r Aifft rhyddhawyd Simeon a daeth Joseff atynt; pan welodd ef Benjamin fe'i cynhyrfwyd gan deimlad. Llanwyd y sachau unwaith eto, a dychwelwyd yr arian, a rhoddwyd cwpan arian Joseff yn sach Benjamin cyn iddynt gychwyn ar eu taith at eu tad. Goddiweddwyd hwy gan swyddog Joseff a'u cyhuddo o ddwyn y cwpan, ac wedi agor sachau pob un, fe'i cafwyd yn sach y brawd ieuengaf. Dychwelsant i'r Aifft i wynebu Joseff, ond ni allai ef ymatal rhagor a datgelodd iddynt pwy ydoedd, 'Myfi yw eich brawd Joseff, a werthwyd gennych i'r Aifft. Yn awr, peidiwch â chyffroi na bod yn ddig wrthych eich hunain, am i chwi fy ngwerthu i'r lle hwn, oherwydd anfonodd Duw fi o'ch blaen er mwyn diogelu bywyd' (Genesis 45:5).

### Y Ddolen Gyswllt

Mae stori Joseff yn ein tywys o hanesion am unigolion – y Patriarchiaid – i hanesion am genedl, oherwydd ar ôl Joseff byddai llwythau Israel yn symud i'r Aifft a dod yn genedl gaeth. Hyd at amser Joseff, ymwneud â theulu y mae Duw, teulu Abraham, Isaac a Jacob, rhyw 70 mewn nifer. Pan symudwn i lyfr Exodus, â'r teulu yn genedl, Joseff yw'r ddolen gyswllt.



Cafodd Joseff ei daflu i'r carchar yn yr Aifft, er nad oedd wedi gwneud dim o'i le.

Pwy arall oedd yn y carchar efo Joseff?

Darlflen y stori yn Genesis 39:19 – 40:3 i gael yr ateb. Nawr, gorffenna'r llun a'i liwio.

# Gwers 9 – Caethwas yn yr Aifft

Joseff yn mynd i'r Aifft | Genesis 37:12–36; 45:1–7

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 42



## Gwers 9

Caethwas yn yr Aifft

### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

Caethwas yn yr Aifft tud 42

### BEIBL LLIW STORI DUW

Ei werthu fel caethwas tud 38–45

### BEIBL BACH STORI DUW

Y tywysog oedd yn fodlon maddau tud 76

### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Joseff y Carcharor tud 24  
Joseff y rheolwr tud 26

### BEIBL LLIW Y PLANT

Joseff y caethwas tud 58

### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Joseff yn mynd i'r Aifft tud 36  
Gwaith pwysig Joseff  
Joseff yn helpu ei deulu

### BEIBL BACH I BLANT

Joseff a'r Brenin tud 82

### Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Joseff y caethwas tud 47  
Joseff y rheolwr tud 52

### BEIBL LLIW Y TEULU

Joseff yn y carchar tud 31

## I Ddechrau ...

### Gemau 'Eifftaidd'

1. Cystadleuaeth Dawnsio fel Eifftiwr

Bydd angen cerddoriaeth "Eifftaidd" arnoch.

Gofynnwch i'r plant ddawnsio o amgylch yr ystafell i'r gerddoriaeth. Pan fydd y gerddoriaeth yn tewi, dylent aros yn llonydd mewn siâp "Eifftaidd", e.e. siâp pyramid, sffincs, Pharo. Cewch alw rhif wrth i'r gerddoriaeth dewi ac mae'n rhaid i'r plant ffurfio grŵp o'r rhif yna a chreu siâp gyda'i gilydd.

Rhowch ganmoliaeth/wobr i'r siâp gorau.

2. Rolio'r mymi

Bydd angen hen gynfasau gwely arnoch.

Rhannwch y plant yn ddimoedd. Dylai pob aelod o'r tîm gymryd tro i rasio i ben draw'r ystafell ac yn ôl – ar ôl cael eu lapio mewn lliain. Gallant sboncio neu rollo. Efallai yr hoffech chwarae gyda doliau yn lle hynny! Lapiwch y doliau mewn "cadachau" a'u rholio i ben draw'r ystafell ac yn ôl. Esboniwch draddodiadau'r Eifftiaid o lapio cyrff mewn cadachau cyn eu claddu a sut y claddwyd rhai o frenhinoedd yr Aifft mewn ystafelloedd cudd y tu mewn i byramid.

## Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

### Bag "props"

Casglwch yr eitemau canlynol. Dyma 3 rhestr – un ar gyfer gwahanol rannau o'r hanes.

Bag 1: Hanes Genesis 37 – Joseff yn derbyn côt amryliw ac yn cael ei werthu i farchnatwyr o Midian. Beibl – pwysleisio bod yr hanes o Genesis (llyfr cyntaf y Beibl); eitem o ddillad lliwgar – i gynrychioli côt Joseff; dafad – roedd brodyr Joseff yn fugeiliaid; potel o ddŵr – taflwyd Joseff i bydew dŵr; darn ugain ceiniog – gwerthwyd Joseff gan ei frodyr am 20 darn o arian; llun pyramid – aeth y marchnatwyr â Joseff i'r Aifft.

Bag 2: Hanes Genesis 39, 40 – Joseff yn nhŷ Potiffar ac yn cael ei garcharu. Beibl – ydy'r plant yn cofio o ble yn y Beibl y daw hanes Joseff? Bowlen o ffrwythau – cafodd Joseff swydd bwysig yn gofalu am dŷ Potiffar; Clogyn – roedd gwraig Potiffar wedi dweud celwyddau am Joseff, ei fod am ei chusanu a bod yn gariad iddi; cadwyni papur – cafodd Joseff ei daflu i'r carchar; powlen gyda rôl fara – cyfarfu Joseff â phobydd Pharo a dehongli ei freuddwyd; cwpan gwin – cyfarfu Joseff â

phentrulliad Pharo yn y carchar a dehongli ei freuddwyd.

Bag 3: Genesis 41-45 – Joseff yn dehongli breuddwyd y Pharo ac yn cyfarfod â'i frodyr. Beibl – o balyfr yn y Beibl y daw hanes Joseff? Buwch/tywysen yd – cafodd Pharo freuddwyd a 'doedd neb ond Joseff wedi gallu ei dehongli; penwisg Eifftaidd (Gweler Atodiad 3); blawd – brodyr Joseff yn dod i chwilio am rawn yn yr Aifft oherwydd y newyn; bag o arian – cuddiwyd bagiau o arian yn sachau yd y brodyr; llun bachgen – aed â Benjamin i'r Aifft yn ôl gorchymyn Joseff; y gair "maddeuant" – maddeuodd Joseff i'w frodyr, aethant i fyw i'r Aifft, gyda Jacob eu tad, ac roedd teulu Joseff yn ddiogel.

## Cymhwyso

Gofynnwch i'r plant restru'r pethau drwg a ddigwyddodd i Joseff yn ystod ei fywyd. Gadewch iddynt edrych ar lyfrau storïau Beiblaidd i'w hatgoffa.

Edrychwch am yr adnod yn Genesis 39:2 a'i darllen gyda'ch gilydd. Beth mae'r adnod yn dweud? Roedd Duw gyda Joseff ac yn ei helpu i wneud ei orau.

Edrychwch wedyn am yr adnodau yn Genesis 39:20, 21, 22 a gofynnwch beth mae'r adnodau yn eu dweud? Tra roedd Joseff yn y carchar, roedd Duw gydag ef gan beri i geidwad y carchar ei hoffi.

Ydy'r plant yn cofio pwy oedd gyda Joseff, yn ei helpu, ac yn gofalu amdano?

Darllenwch Genesis 45:7. Mae Joseff yn credu bod Duw wedi trefnu iddo gyrraedd yr Aifft, a chael swydd gan Pharo er mwyn cadw ei deulu'n fyw trwy'r newyn mawr. Ydy'r plant yn cofio bod Joseff yn rhan o deulu Abraham? Ac un o addewidion Duw i Abraham oedd y byddai ei ddisgynyddion yn tyfu i fod yn genedl niferus. Trwy Joseff mae Duw yn sicrhau dyfodol y genedl ac yn cadw ei addewidion i Abraham.

## Cân

"Cariad Crist sydd yn rhyfeddol", Caneuon Ffydd 412.

## Gweddi

Defnyddio breichled WWJD gan esbonio beth yw ystyr y llythrennau WWJD, sef, 'What Would Jesus Do?' Gallwch eu prynu o siopau llyfrau Cristnogol neu ar y We o 'christianbits.co.uk'. Ar sawl achlysur yn hanes Joseff sylweddolwn fod Joseff wedi wynebu penderfyniad – penderfyniad a fyddai'n plesio Duw neu ddim. Trafodwch sefyllfaoedd sy'n debygol o godi neu brofiadau blaenorol y plant a gofynnwch i lesu am ei help i ddewis gwneud yr hyn sy'n ei blesio.

## Cwis

Bydd angen dis, amlinelliad côt, pinnau ffelt a rhestr o gwestiynau'n seiliedig ar hanes Joseff far gyfer pob tîm. Gofynnwch y cwestiynau i'r timoedd yn eu tro. Os byddant yn cynnig ateb cywir cânt daflu'r dis. Wedyn, cânt ychwanegu'r rhif a daflwyd o smotiau i'r gôt i'w haddurno. Ar ddiwedd y cwis, y tîm sydd â'r nifer fwyaf o smotiau sy'n ennill.

## Adnoddau Ychwanegol

### Gwerslyrau Golau ar y Gair

Joseff yn yr Aifft

### Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Joseff

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 7: Joseff y Breuddwydiwr

Stori 8: Joseff a Brenin yr Aifft

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 274

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 8: Y Brodyr Cas

Cyflwyniad 9: Joseff a'r Brenin

### Powerpoint ar wefan

[visionforchildren.co.uk](http://visionforchildren.co.uk)

Hanes Joseff

### Llyfrau Stori

Ffwrdd â thi, frawd bach 1.25

Joseff a'i Freuddwydion 75c

